**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Julie,

Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn sganio'r gorwel gyda Phrif Arolygydd a Dirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i drafod y prif faterion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar ein **gwefan** ond roedd yna negeseuon clir ac amlwg iawn ynghylch pa mor fregus yw'r sector gofal cymdeithasol yr oedd y Pwyllgor am dynnu eich sylw atynt.

## Galw cynyddol am wasanaethau

Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym y bu cynnydd digynsail yn y galw am ofal cymdeithasol:

> *"...what we are faced with at the moment is a recruitment and, as seriously, a retention crisis for social workers and for social care workers, which is leading to significant fragility for services, and particularly in homecare and domiciliary support."*

Pan wnaethom gymryd tystiolaeth yn gynharach eleni ar gyfer ein hymchwiliad i ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai, dywedwyd wrthym fod y sefyllfa o ran gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau ers blynyddoedd lawer, a bod y pandemig wedi gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn sefyllfa heriol iawn. Ar 30 Tachwedd, disgrifiodd y Prif Arolygydd argyfwng recriwtio a chadw o ran gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol, sy'n arwain at fregusrwydd sylweddol i wasanaethau gofal, yn enwedig ym maes gofal cartref a chymorth cartref. Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym:

> *"...what we see is essentially a health and care system that is gridlocked. Many social care leaders are describing it in terms of crisis, and we don't use that word lightly."*

## Y gweithlu

Fel y nododd y Prif Arolygydd, hwn fydd y trydydd gaeaf lle mae’r sector gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau sylweddol. Mae'r gweithlu’n flinedig iawn ac wedi’i ddisbyddu, ac mae'r staff presennol yn gweithio sifftiau hirach a mwy o oriau (oherwydd prinderau staff) - nid yw hynny’n gynaliadwy. Mae cryn bryder, felly, ynghylch gwytnwch y gweithlu.

Mae’r angen am gydraddoldeb rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cymheiriaid yn y GIG, o ran cyflog a thelerau ac amodau, wedi bod yn broblem ers amser maith, ac mae pwyllgorau olynol yn y Senedd wedi bod yn galw amdano. Y gobaith oedd y byddai'r sylw a roddwyd i ofal cymdeithasol drwy'r pandemig yn helpu i godi proffil gofal cymdeithasol, a byddai'r angen i fynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wedi bod yn endemig ers blynyddoedd lawer yn cael ei ddatrys. Felly, roedd yn siomedig clywed gan y Prif Arolygydd ei bod yn ymddangos bod y proffil uwch wedi bod yn fyrhoedlog i ofal cymdeithasol.

Mae canfyddiad o hyd bod gwaith gofal cymdeithasol yn weithlu cyflog isel a sgiliau lefel isel. Os ydym am ddatblygu’r gweithlu, mae parch cydradd a chydraddoldeb o ran telerau ac amodau yn hanfodol er mwyn chwalu’r myth hwn a recriwtio a chadw niferoedd digonol o staff gofal cymdeithasol. Dywedodd AGC wrthym, os nad eir i’r afael â’r sefyllfa staffio fel mater o frys ar lefel genedlaethol, fe fydd awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol mewn perygl o beidio â chyflawni eu dyletswyddau statudol a rheoleiddiol.

## Y pwysau ar ofalwyr di-dâl

Yn ystod ein hymchwiliad i ryddhau cleifion o'r ysbyty, clywsom bryderon am y pwysau sy'n cael ei roi ar deuluoedd a gofalwyr di-dâl i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth gofal.

Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym nid yn unig fod gormod o bobl yn aros am asesiad o'u hanghenion, ond hefyd yn rhy aml nid oes digon o gapasiti yn y system i ddiwallu'r anghenion hynny yn dilyn asesiad. Yn ogystal, nid yw cynlluniau gofal a chymorth pobl yn cael eu hadolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu pan fydd anghenion pobl yn newid ac efallai fod angen mwy o ofal arnynt, nid yw hyn yn cael ei ddarparu. Tynnodd sylw hefyd at y pwysau anghynaladwy sy'n cael ei roi ar ofalwyr di-dâl i lenwi'r bylchau mewn gofal.

Rydym hefyd yn rhannu pryderon AGC fod pobl yn dal i gael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref gofal pan mai eu dewis yw dychwelyd adref ond nid yw hyn yn bosibl gan nad oes pecynnau gofal addas ar gael. Dywedodd y Prif Arolygydd mai hwn yw’r ‘opsiwn lleiaf gwael’. Dywedodd AGC wrthym, lle nad oes dewis arall yn lle cael ei ryddhau o'r ysbyty i gartref gofal, ei bod yn bwysig bod pobl yn cael y gefnogaeth briodol er mwyn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl tra’n byw yn y cartref gofal.

Mae hyn yn golygu y dylid darparu gwasanaethau ailalluogi 'o fewn cyrraedd' neu gefnogi staff gofal mewn cartrefi gofal i ddatblygu sgiliau ailalluogi ychwanegol.

Nid oes yr un o'r materion hyn yn newydd. Yn wir, gwnaethoch gydnabod llawer ohonynt yn eich ymateb i argymhellion ein hadroddiad ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael sicrwydd eto bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cyflymder a'r brys sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn, a sicrhau newid gwirioneddol yn y sector. Rydym yn nodi bod y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i fod i gyhoeddi diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd 2022. Rydym yn disgwyl â diddordeb am yr adroddiad hwn ac yn awyddus i weld camau pellach yn cael eu cymryd i wella tâl ac amodau gwaith y gweithlu gofal cymdeithasol a mynd i'r afael â'r prinderau er mwyn datgloi ein systemau iechyd a gofal.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.